Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Gynradd Chwilog**
**Chwilog**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 6PS**

**Dyddiad yr ymweliad: Ebrill 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Chwilog wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Ebrill 2014.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau darllen a mathemateg ar draws yr ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae safonau darllen a mathemateg llawer o ddisgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau darllen ac yn gwneud hynny yn hyderus ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n ddarllenwyr brwdfrydig ac mae llawer o'r disgyblion mwyaf abl yn darllen gyda chywirdeb a mynegiant priodol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau darllen yn dda wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod cynnwys llyfrau'n ddeallus, gan fynegi a chyfiawnhau barn am ddigwyddiadau a hoff gymeriadau'n hyderus. Mae'r mwyafrif yn ddarllenwyr brwdfrydig, ac mae'r goreuon yn defnyddio goslef llais i gyfleu ystyr yn effeithiol iawn, yn enwedig wrth ddarllen cerddi. Mae uwch fedrau darllen llawer o ddisgyblion yn dda ac mae'r mwyafrif yn defnyddio ystod o strategaethau ymchwilio yn llwyddiannus i ddarganfod gwybodaeth o lyfrau ac o'r rhyngrwyd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn trawsieithu'n hyderus ac yn effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae safonau mathemateg llawer o ddisgyblion yn dda ar draws y meysydd dysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio terminoleg fathemategol gywir wrth fesur gwrthrychau gwahanol. Gall y rhan fwyaf adnabod a thrafod priodweddau siapiau 2D a 3D a gall y mwyafrif gasglu, cofnodi, dehongli a chyflwyno data a defnyddio rhif yn effeithiol yn eu gweithgareddau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg gan gymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ac yn gyson. Er enghraifft, ym mhen uchaf yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau mathemategol yn effeithiol i ddatrys problemau mewn pynciau eraill trwy ddatblygu eu gallu i gyfathrebu a rhesymu'n fathemategol. Fodd bynnag, nid yw medrau mathemateg disgyblion mwy abl wedi datblygu cystal oherwydd diffyg her yn yr addysgu ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ddata er mwyn adnabod ac ymateb i'r angen i godi safonau darllen a mathemateg y disgyblion. Defnyddir profion safonol

er mwyn blaenoriaethu cefnogaeth ychwanegol ac i olrhain cynnydd disgyblion. Rhoddir cynhaliaeth briodol i garfan fach o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i ddatblygu eu medrau darllen a mathemateg ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod cynlluniau gwaith yr ysgol gyfan yn sicrhau datblygiad yn y medrau ac yn ateb i ofynion yr ystod llawn o ddisgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae cynlluniau'r ysgol yn ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. O ganlyniad, mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau rhan fwyaf y disgyblion.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu ei chynlluniau tymhorol i sicrhau darparu cyfleoedd cyson i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Bellach, mae'r cynlluniau ar draws yr ysgol yn cynnwys gweithgareddau gwahaniaethol priodol sy'n sicrhau dilyniant, parhad a chysondeb yn y medrau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes ffocws ddigon cyson yng nghynlluniau pob dosbarth ar ddatblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau am eu dysgu.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cydgynllunio'n ofalus ac yn defnyddio cymorthyddion dosbarth yn effeithiol i gefnogi dysgu a rhoi cymorth i unigolion. Mae'r pennaeth yn monitro ac yn archwilio'r cynlluniau tymhorol ac yn cyflwyno adborth arfarnol defnyddiol ar lafar i'r athrawon. Mae hyn yn sicrhau bod y medrau yn cael eu cymhwyso'n gydlynol ar draws yr holl bynciau. Serch hynny, nid yw'r cynllunio wythnosol yn ddigon manwl bob amser er mwyn ysgogi a diwallu anghenion y disgyblion mwyaf galluog.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cychwyn defnyddio system electronig er mwyn cofnodi a dadansoddi asesiadau athrawon. Mae athrawon yn defnyddio'r deilliannau hyn yn briodol er mwyn adnabod anghenion unigolion yn gynnar ac i gynllunio'r camau nesaf yn natblygiad pob disgybl.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd trefniadau asesu ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol ers yr arolygiad craidd i sicrhau gwell cysondeb yn y defnydd o dechnegau asesu ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o system electronig olrhain cynnydd er mwyn cofnodi asesiadau athrawon yn effeithiol. Mae adnabyddiaeth yr athrawon o gynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd addas o'r wybodaeth i adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae egwyddorion asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n effeithiol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae llawer o athrawon yn rhannu meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion, ac mae cyfleoedd cyson i alluogi disgyblion i drafod eu gwaith yn rheolaidd yn ystod y gwersi. Caiff y llyfrau eu marcio'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid

yw'r sylwadau bob tro yn rhoi arweiniad digon cadarn i'r disgyblion wybod beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwybod beth yw eu targedau personol ar gyfer gwella eu cyflawniadau, ond mewn ychydig o achosion, nid yw'r targedau yn ddigon penodol.

Mae gwaith safoni a chymedroli ar draws yr ysgol, y clwstwr a'r ysgol uwchradd wedi arwain at broffiliau asesu pwrpasol. Golyga hyn fod gan y staff well ymwybyddiaeth o'r safonau a gyflawnir gan bob disgybl. Mae hyn, ynghyd â'r system olrhain cynnydd fanwl, wedi cryfhau dealltwriaeth yr athrawon o lefelau a deilliannau'r cwricwlwm. Defnyddir gwahanol brofion safonedig i asesu'r disgyblion yn ffurfiol er mwyn cofnodi ac olrhain cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, mae'r gwaith o lefelu cyrhaeddiad disgyblion yn fwy cywir a chadarn.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod holl ddogfennaeth yr ysgol yn ateb gofynion statudol ac yn ymateb yn llawn i faterion diogelu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan yr ysgol ystod briodol o bolisïau sy'n ymateb yn llawn i ofynion statudol. Mae holl bolisïau'r ysgol wedi eu harwyddo ac mae amserlen briodol ar waith i'w monitro a'u hadolygu yn rheolaidd.

Mae gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer diogelu ac mae holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'r prosesau hyn. Mae holl staff yr ysgol, ynghyd â'r llywodraethwr dynodedig, wedi derbyn hyfforddiant priodol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llawn i agweddau diogelwch a amlygwyd yn yr arolygiad craidd. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion ar y safle ac oddi ar safle'r ysgol.

**Argymhelliad 5: Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer. Mewn amser byr, mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol wedi datblygu ei rôl yn effeithiol er mwyn sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn.

Gan ddefnyddio ystod o asesiadau mewnol, canlyniadau profion safonol, a chraffu ar waith disgyblion, mae'r ysgol bellach yn adnabod anghenion dysgu disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth ychwanegol addas fel bo'r angen. Mae gan yr ysgol system olrhain cynnydd effeithiol, sy'n cael ei defnyddio'n briodol er mwyn dadansoddi anghenion disgyblion, ac adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer datblygu medrau darllen a sillafu disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chefnogi'n effeithiol trwy gydweithio llwyddiannus rhwng staff addysgu, cymorthyddion ac athrawes gwybodaeth a dysgu'r awdurdod. Mae hyn wedi arwain

at godi safonau darllen y disgyblion.  Nid yw'r rhaglenni ymyrraeth hyd yma wedi mynd i'r afael ddigon â'r ystod lawn o anghenion disgyblion, yn cynnwys rhifedd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth ac arweiniad asiantaethau allanol arbenigol yn rheolaidd.  Mae cydweithio agos rhwng yr ysgol, yr unedau arbenigol a'r cartref yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y ddarpariaeth.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau lles, iaith a llefaredd disgyblion.

**Argymhelliad 6:  Cryfhau gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol er mwyn rhoi ffocws ar godi safonau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr weledigaeth glir sy'n hyrwyddo disgwyliadau uchel ymysg y staff a'r disgyblion.  Mae strwythur arweinyddiaeth yr ysgol bellach yn sefydlog.  Mae ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ethos yr ysgol.  Mae arweinyddion yr ysgol yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol a chanlyniadau profion darllen a rhifedd cenedlaethol yn effeithiol er mwyn gosod strategaethau cadarn ar waith i godi safonau darllen a mathemateg.  Mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth yr athrawon o safonau'r ysgol.

Mae gan holl staff yr ysgol ddisgrifiadau swyddi sy'n nodi'n glir eu rôl a'u cyfrifoldebau.  Mae cydlynwyr pwnc wedi eu sefydlu, ac maent yn cymryd rôl fwy gweithredol wrth fonitro safonau yn llyfrau'r disgyblion.  Caiff canfyddiadau monitro eu rhannu gyda gweddill yr athrawon mewn cyfarfodydd athrawon a llywodraethwyr sy'n hybu gwell dealltwriaeth o safonau ymysg arweinwyr yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr, o dan arweiniad cadarn y pennaeth, bellach yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel arweinwyr strategol.  Mae ganddynt well ymwybyddiaeth o berfformiad yr ysgol ac maent yn dechrau cyfrannu'n fwy penodol at osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol.  Maent wedi derbyn hyfforddiant perthnasol i ddadansoddi data perfformiad yr ysgol, sy'n eu galluogi i herio rhai agweddau ar waith yr ysgol yn fwy effeithiol.  Enghraifft o hyn yw'r modd y mae'r llywodraethwyr wedi ymateb i ganfyddiadau data profion darllen cenedlaethol sydd wedi arwain at wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r llywodraethwyr yn ymateb yn llawn i'w dyletswyddau statudol.  Mae'r drefn rheoli perfformiad yn weithredol ac mae cyfnodau penodol i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu wedi eu sefydlu'n gadarn

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.